Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2019

Cymru Fwy Llewyrchus, Cyfartal a Gwyrdd

# Rhagair Gweinidogol



**Mark Drakeford**
Prif Weinidog Cymru

**Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod Cymru'n wlad lle gall pawb ffynnu.**

**Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion tlodi, hyrwyddo gwaith teg a'r camau y gallwn ni eu cymryd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd i wella ein gwlad am genedlaethau i ddod.**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn nodi ein llwyddiannau allweddol a'r camau yr ydym yn parhau i'w cymryd i wella llesiant pobl ledled Cymru.

Eleni, fe wnaethom gyhoeddi argyfwng hinsawdd – y wlad gyntaf yn y DU i wneud hynny. Roedd yn galw arnom ni i gyd yng Nghymru i weithredu. Rhaid inni gymryd camau nawr er mwyn traddodi'r Gymru yr ydym yn ei hadnabod ac yn ei charu heddiw i'n plant ac i blant ein plant.

Ac rydym yn gweithredu. Rydym wedi plannu dros 10 miliwn o goed ers 2014 ac rydym yn creu Coedwig Genedlaethol i Gymru. Rydym ar y trywydd iawn at godi 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor y Senedd hon ac rydym wedi gosod gwelliannau arbed ynni mewn dros 50,000 o gartrefi i godi pobl allan o dlodi tanwydd a chreu Cymru fwy gwyrdd.

Mae llawer o bethau yn yr adroddiad blynyddol hwn inni ymfalchïo ynddynt yng Nghymru – polisïau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn ym mywydau pobl – o'n rhaglen dysgu dros ginio yn y gwyliau ysgol sy'n cefnogi plant sydd mewn perygl o fod yn llwglyd, i'n diwygiadau addysg o'r oed meithrin i'r brifysgol, sy'n gwella safonau ar bob lefel, gyda chymorth a gwaith caled y proffesiwn addysgu. Dangosodd canlyniadau PISA 2018 mai Cymru oedd yr unig wlad yn y DU i gofnodi gwelliannau ym mhob un o'r tri maes craidd a chawsom ein sgoriau gorau erioed ar gyfer darllen a mathemateg.

Cwympodd y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru i 3% yn ystod y tri mis cyn mis Tachwedd 2019 – dyma'r gyfradd isaf ers i gofnodion ddechrau cael eu cadw. Rydym ni am wneud Cymru'n wlad o waith teg, lle y gall pawb gael at waith teg sy'n rhoi boddhad, ac rydym wedi ymrwymo i roi ein dull partneriaeth gymdeithasol yn y llyfr statud.

Rydym wedi cyflawni popeth a nodir yn yr adroddiad hwn er gwaethaf anhrefn yr hinsawdd wleidyddol ehangach, a achosir gan gyni parhaus Llywodraeth y DU a'r ansicrwydd sy'n codi yn sgil Brexit.

Bydd ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn newid Cymru yn sylfaenol a'n lle yn y byd am ddegawdau i ddod. Byddwn ni bob amser yn rhoi llais i Gymru a bob amser yn sefyll dros fuddiannau Cymru, yn enwedig wrth inni ddechrau cyfnod nesaf Brexit wrth i'r DU ailnegodi ei lle yn y byd.

Rwy'n falch o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni eleni ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd i wneud Cymru'n wlad fwy ffyniannus, cyfartal a gwyrdd yn y flwyddyn i ddod.


# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagymadrodd** | **4** |
| **Paratoi ar gyfer Brexit a chofleidio ein rôl fyd-eang** | **5** |
| **Uchafbwyntiau yn unol â’r meysydd blaenoriaeth** | **6** |
| **Mwy Ffyniannus** | **8** |
| **Cyfartal** | **11** |
| **Mwy Gwyrdd** | **15** |
| **Adolygu’r amcanion llesiant** | **18** |




# Rhagymadrodd

## Dyma ein hadroddiad blynyddol, sy'n adolygu ac yn nodi ein cynnydd tuag at ein hamcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.




### Ein hamcanion llesiant

Yn 2017, gwnaethom nodi 12 o amcanion llesiant a'u cynnwys yn *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*. Y rhain yw'r meysydd y bydd ein gwaith yn gwneud y cyfraniad mwyaf ynddynt at y nodau llesiant cenedlaethol, gan gefnogi Cymru decach heddiw ac yn y dyfodol.

Roedd *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* yn egluro'r camau y byddem yn eu cymryd i gyflawni ein hamcanion llesiant. Cafodd y camau hyn eu datblygu ymhellach ym maniffesto arweinyddiaeth Prif Weinidog Cymru. Mae nifer o feysydd blaenoriaeth sy'n cyffwrdd â sawl amcan llesiant ac sy'n gofyn am ymateb llywodraeth gyfan – **y blynyddoedd cynnar, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, sgiliau a chyflogadwyedd a datgarboneiddio**. Yn ystod y broses o ddatblygu Cyllideb 2020-21, cafodd **bioamrywiaeth** a **thlodi** eu nodi fel meysydd blaenoriaeth eraill.

Mae'r cynnydd hyd fis Hydref 2019 wedi'i gyflawni yn erbyn cefndir o ansicrwydd digyffelyb oherwydd Brexit a chyni parhaus. Ond nid yw hyn wedi ein hatal rhag cyflawni ar ran pobl Cymru. Rydym hefyd wedi ystyried *Llesiant Cymru: 2018-2019* wrth adolygu ein hamcanion llesiant ac wrth baratoi'r adroddiad hwn.

Rydym yn dal i sicrhau ein bod yn cyflawni ein gwasanaethau yn unol â safonau'r Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru ac rydym yn falch o allu ei gwreiddio a'i dathlu ar draws ein holl waith.

### Creu Cymru fwy llewyrchus, cyfartal a gwyrdd

Rydym wedi cyflawni ein gwaith yn erbyn yr amcanion llesiant o dan dair thema – mwy llewyrchus, cyfartal a mwy gwyrdd. Mae'r themâu hyn yn rhoi darlun o'n gweledigaeth a'n huchelgais ar gyfer Cymru, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion llesiant ac o wneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant.

# Paratoi ar gyfer Brexit a chofleidio ein rôl fyd-eang

Roedd 2019 yn flwyddyn o wyro rhwng methu'n lân â chytuno a gweithredu gwyllt i Lywodraeth a Senedd y DU. Cafodd dyddiad ymadael y DU â'r UE ei estyn dair gwaith (29 Mawrth, 12 Ebrill a 31 Hydref) cyn cael ei gadarnhau ar gyfer 31 Ionawr 2020. Gwnaethom barhau i hyrwyddo buddiannau Cymru fel y'u nodir yn *Diogelu Dyfodol Cymru* a *Dyfodol Mwy Disglair i Gymru*. Roedd ein gwaith yn tynnu sylw at yr effaith eithriadol o niweidiol y byddai Brexit heb gytundeb yn ei chael ar economi Cymru ac ar ein cymunedau. Mae ein cynigion hefyd yn amlinellu'r math gorau o Brexit, yn ein tyb ni, ar gyfer Cymru a'r DU

Aethom ati i weithio i baratoi at sefyllfa o ymadael heb gytundeb. Roedd y paratoadau hynny'n cynnwys datblygu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn weithredol ar y diwrnod ymadael (gan gwblhau oddeutu 50 o Offerynnau Statudol ar gyfer Cymru a chydsynio i fwy na 150 o Offerynnau Statudol gan y DU). Buom yn gweithio hefyd gyda Llywodraeth y DU ar brosiectau parodrwydd gweithredol, paratoi ar gyfer argyfyngau sifil posibl, ac ar brosiectau penodol i Gymru ar ben y trefniadau ar gyfer y DU gyfan.

Gan weithio gyda sefydliadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, datblygwyd y wefan 'Paratoi Cymru / Preparing Wales', i roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd, Porth Brexit Busnes Cymru i helpu cwmnïau i wynebu'r heriau o'u blaenau a phecyn cymorth i helpu gwladolion yr UE sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Cafodd £46m ei neilltuo o Gronfa Bontio'r UE ar gyfer busnesau, cyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector, i'w helpu i baratoi.

Rydym yn ceisio sicrhau rôl glir wrth negodi â'r Undeb Ewropeaidd ac wrth drafod cytundebau masnach yn y dyfodol drwy ein cysylltiadau rhynglywodraethol. Rydym yn chwarae rhan flaenllaw wrth geisio sicrhau marchnad fewnol agored yn y DU a fframweithiau cyffredin mewn meysydd lle y mae'r gwaith o wneud penderfyniadau'n cael ei rannu. Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud i ddylanwadu ar yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol ac i wneud cynnydd â'r model 'cydlywodraethu' rhwng gweinyddiaethau'r DU. Cyhoeddwyd ein dogfen *Diwygio ein Hundeb*, sy'n cyfrannu at y ddadl ynghylch dyfodol deinamig a hyfyw ar gyfer y DU.

Rydym yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i ddatblygu ein dull o fynd i'r afael â chyllid economaidd rhanbarthol ar ôl Brexit. Rydym yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i anrhydeddu'r addewid y dylai Cymru gael yr holl gyllid y byddai wedi ei gael gan yr Undeb Ewropeaidd petai'r DU wedi parhau'n aelod o'r UE.

## Cymru groesawgar, sydd â phartneriaethau byd-eang cyfoethog

Mae cryfhau safle Cymru yn y byd yn hanfodol er mwyn sicrhau ein llewyrch parhaus, yn enwedig gan fod ansicrwydd yn dal i fod ynghylch perthynas y DU ag Ewrop yn y dyfodol. Er mwyn tanlinellu ymhellach ein bod yn wlad groesawgar, a lle pwysig Cymru yn y byd, cafodd portffolio newydd ei greu ar gyfer y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, gan gynnwys Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

Yn ystod 2018 a 2019, agorwyd ein swyddfeydd newydd ym Mharis, Berlin a Düsseldorf i gyflawni ein cynllun strategol i ehangu ein **presenoldeb rhyngwladol**. Mae'r brand Cymru Wales mor gryf ag erioed ac mae ein hymgyrch Croeso Cymru wedi sicrhau bod £350m arall yn cael ei wario bob blwyddyn yn economi Cymru. Cafodd ein ***Strategaeth Ryngwladol*** newydd ei chyhoeddi yn 2020.



# Uchafbwyntiau yn unol â'r meysydd blaenoriaeth

Roedd *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* yn nodi cyfres o feysydd blaenoriaeth trawsbynciol, ac rydym wedi parhau i adolygu'r rhain ac ychwanegu atynt. Maent yn cyd-fynd â manifesto arweinyddiaeth Prif Weinidog Cymru. Eleni, wrth baratoi'r gyllideb ar gyfer 2020-21 aethpwyd ati i ystyried buddsoddiadau i gyflymu ein gwaith o leddfu tlodi a gwrthdroi'r dirywiad yn ein hamgylchedd naturiol. Dyma rai o'r prif bethau a gyflawnwyd:

## Y Blynyddoedd Cynnar

Siapio a gwella bywyd pob plentyn yng Nghymru

Rhoi ein **Cynnig Gofal Plant** ar waith yn gynt er mwyn helpu rhieni i fyd gwaith

Helpu mwy na 36,000 o blant drwy ein rhaglen **Dechrau'n Deg**

Ehangu rhaglenni **Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol**

## Tai

Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael cartref fforddiadwy o ansawdd da

Cyflymu ein rhaglen i ddarparu 20,000 o **dai fforddiadwy** ychwanegol

Buddsoddi yn ein **Rhaglen Dai Arloesol** i helpu i greu cartrefi newydd o ansawdd uchel

**Ôl-osod mewn cartrefi** i wella'u heffeithlonrwydd a'r ansawdd byw

## Iechyd meddwl

Darparu'r driniaeth gywir yn y camau cynnar

Datblygu ein cynllun **Law yn Llaw at Iechyd Meddwl** a gyhoeddwyd fis Ionawr 2020

Buddsoddi mewn dull **ysgol gyfan newydd** i gefnogi pobl ifanc

Cynyddu'r gyllideb a **glustnodir ar gyfer iechyd meddwl** i £679m yn 2019-20

## Gofal cymdeithasol

Sicrhau gofal tosturiol a rhoi urddas ac annibyniaeth i bobl

Codi'r **terfyn cyfalaf gofal preswyl** i £50,000 - ddwy flynedd yn gynt na'r bwriad

Gweithio gydag awdurdodau lleol i leihau nifer y **plant sy'n derbyn gofal**

Rhoi ein **Cronfa Gofal Integredig** ar waith i ddiwallu anghenion gofal a thai yn well

## Sgiliau a chyflogadwyedd

Rhoi'r sgiliau i bobl allu cael gwaith teg sy'n eu bodloni

Buddsoddi mewn 100,000 o **brentisiaethau** erbyn 2021, gan gynnwys cymwysterau lefel uwch a STEM

Lansio **Cymru'n Gweithio**, gan ddarparu cymorth i fwy na 15,000 o bobl

Ehangu cynllun **Bwrsariaeth GIG Cymru** i sicrhau bod gyrfaoedd y GIG yn agored i bawb

## Datgarboneiddio

Helpu i greu amgylchedd glân ac iach i bawb

Cyhoeddi ein **cynllun cyflawni carbon isel** sy'n cynnwys 100 o bolisïau a chynigion

Symud tuag at **economi gylchol**, gan adeiladu ar ein cyfraddau ailgylchu sydd gyda'r gorau yn y byd

Adeiladu ein **diwydiannau ynni adnewyddadwy**, sy'n cynhyrchu 50% o'n trydan erbyn hyn

## Tlodi

Dull llywodraeth gyfan o fynd i'r afael â thlodi

Cynnig **brecwast am ddim** i fwy na 75,000 o blant

Rhoi ein cynllun **Cartrefi Cynnes** ar waith i helpu pobl i oresgyn tlodi tanwydd

Defnyddio ein **Grant Datblygu Disgyblion** i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael cymryd rhan lawn mewn addysg

## Bioamrywiaeth

Gwrthdroi'r dirywiad yn ein hamgylchedd, er mwyn cenedlaethau'r dyfodol

Datblygu ein **Coedwig Genedlaethol** a **phlannu coed** yma a thramor

Hybu arferion **rheoli tir yn gynaliadwy**, gan gynnwys amaethyddiaeth fanwl

**Newid terfynau cyflymder** i fynd i'r afael â llygredd aer a chreu ffyrdd mwy diogel

# Mwy Ffyniannus

Y ffordd fwyaf effeithiol o helpu pobl i oresgyn tlodi yw drwy waith diogel a theg. Ein nod yw defnyddio'r dulliau ysgogi sydd ar gael inni i gefnogi economi ffyniannus, gan roi ansawdd bywyd boddhaol i bobl yng Nghymru a chydnabod y gall y rhai sydd â'r angen mwyaf fod angen cymorth ychwanegol.

Yn ystod tri mis diwethaf 2018, cododd y **gyfradd gyflogaeth** yng Nghymru cyn uched â 76.2% ac mae wedi parhau'n uchel o safbwynt hanesyddol. Er bod hyn yn galonogol, rydym eisiau gweld economi sy'n seiliedig ar sgiliau uwch, gwell cynhyrchiant a chyflog ac amodau teg. Rydym hefyd eisiau dileu'r rhwystrau i gyflogaeth a chynnydd ar gyfer pobl agored i niwed.

## Cefnogi pobl a busnesau drwy waith teg a chyflogadwyedd

Dylai pobl fedru disgwyl cael gwaith teg a chael eu trin ag urddas a pharch yn y gweithle. Rydym wedi derbyn argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg ac yn datblygu **Strategaeth Gwaith Teg** i wneud Cymru yn genedl Gwaith Teg. Rydym yn ymgynghori ar **Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol** i osod ein model partneriaeth gymdeithasol lwyddiannus ar sail statudol.

Dylai pawb yng Nghymru gael y cymorth y mae arnynt ei angen i ddod o hyd i waith teg sy'n werth chweil. Lansiwyd ein cynllun cymorth cyflogadwyedd **Cymru'n Gweithio** ym mis Mai 2019, ac mae'r gwasanaeth wedi rhoi cymorth yn barod i 12,000 o oedolion a 3,300 o bobl ifanc. Fe wnaethom fuddsoddi £116m mewn **prentisiaethau** yn 2018-19 ac rydym wedi sicrhau mwy na 74,000 o brentisiaethau. Rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd ein hymrwymiad o 100,000 o brentisiaethau o safon i bob oed erbyn diwedd tymor y Senedd hon.

Rydym wedi helpu mwy o bobl â phroblemau iechyd i aros mewn gwaith - helpodd y **Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith** bron i 3,000 o bobl i aros mewn gwaith a 1,200 pellach i ddychwelyd i'r gwaith. Eleni, gwnaethom gyhoeddi £9.4m ychwanegol o gyllid a fydd yn estyn y gwasanaeth tan fis Rhagfyr 2022, gan roi cymorth i hyd at 12,000 o bobl. Mae cant o gyflogwyr wedi ymuno â'r **Wobr Cymru Iach ar Waith**, sy'n cefnogi cyflogwyr, unigolion a gweithwyr iechyd proffesiynol i helpu pobl o oedran gweithio i aros yn heini ac yn iach.

Rydym yn parhau i roi ein **Contract Economaidd** ar waith ac wedi cytuno ar fwy na 200 o gontractau economaidd gyda busnesau. Rydym yn buddsoddi yn yr **Economi Sylfaenol** – lansiwyd Cronfa Her yr Economi Sylfaenol sy'n werth £4.5m ac sydd, ers mis Ionawr 2020, yn cefnogi mwy na 50 o brosiectau arloesol ar draws Cymru ac yn gweithio i ledaenu'r budd y mae gwario'n lleol yn ei roi i'r economi leol.






## Cymunedau, diwylliant a busnesau sy'n llewyrchus a chydnerth

Mae ar Gymru angen cymunedau cefnogol, cynhwysol a ffyniannus, wedi'u cyfoethogi gan ein diwylliant, ein hiaith a'n hunaniaeth genedlaethol Gymreig. Rydym yn parhau i roi ein strategaeth ***Cymraeg 2050*** ar waith er mwyn cyrraedd ein targed uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – mae hynny'n cynnwys pobl sy'n gallu siarad gair neu ddau o Gymraeg yn ogystal â phobl sy'n siarad Cymraeg yn rhugl o ddydd i ddydd. Ategir y strategaeth gan gynlluniau gweithredu blynyddol. Rydym wedi gweithio gyda nifer o gyrff, gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd a'r Mentrau Iaith i gyflawni amcanion *Cymraeg 2050*.

Rydym yn datblygu **strategaeth fewnol ar y Gymraeg** er mwyn inni fod yn batrwm cenedlaethol o ran hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg. Rydym wedi cyflwyno ystod o wasanaethau yn ddwyieithog, gan gynnwys y cynnig gofal plant, er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg. Mae Cronfa **Arloesi Arfor**, sy'n werth £2m, yn cefnogi mentrau busnes, cymunedol ac entrepreneuraidd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gorllewin. Fis Gorffennaf 2019, cyhoeddwyd ***Mwy Na Geiriau: cynllun gweithredu 2019-20***, sy'n nodi sut y byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu yn Gymraeg.

Mae stryd fawr lewyrchus yn rhan allweddol o gymuned gynhwysol a ffyniannus, a bydd ein rhaglenni wedi galluogi £800m o fuddsoddiadau gael eu gwneud mewn canol trefi erbyn 2022. Mae ein cynllun arloesol **Benthyciadau Canol Trefi** wedi darparu gwerth £31m o gyllid ac eleni fe wnaethom lansio **Cronfa Fuddsoddi Eiddo Canol Trefi** gwerth £2.1m i er mwyn i adeiladau gwag allu cael eu hailddefnyddio.

Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yng nghyfleusterau craidd **cymunedau**. Ym 2019-20 dyrannwyd £5m o arian cyfalaf ychwanegol i Chwaraeon Cymru sydd wedi helpu mwy na 120 o wahanol **glybiau a sefydliadau chwaraeon** i wella eu cyfleusterau yn ardaloedd pob un o'r awdurdodau lleol. Darparwyd dros £1.4m hefyd i helpu i wneud gwelliannau cyfalaf mawr i 11 o **lyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifdai** ledled Cymru.

Cefnogodd ein huned digwyddiadau mawr 28 o **ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon** yn 2018, gan ddenu mwy na 230,000 o ymwelwyr i Gymru, cefnogi 965 o swyddi a chyfrannu £42m i economi Cymru. Ymysg y rhain roedd Marathon Cymru Casnewydd, Tour of Britain 2018 a gŵyl gerddoriaeth a chelfyddyd ryngwladol Focus Wales yn Wrecsam.

Rydym wedi ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu **banc cymunedol i Gymru** i gynnal gwasanaethau bancio hanfodol yn y cymunedau hynny y mae cau canghennau banciau'r stryd fawr wedi effeithio arnynt.

Mae busnesau ac entrepreneuriaid lleol yn gwneud ein cymunedau yn lleoedd deinamig a gwerth chweil. Mae **Banc Datblygu Cymru** yn rheoli mwy na £500m o gymorth ar gyfer busnesau, gan helpu entrepreneuriaid i ffynnu. Helpodd **Busnes Cymru** i greu mwy na 1,040 o fentrau newydd yn ystod 2018.



## Seilwaith modern sy'n cysylltu cymunedau

Mae ar bobl a chymunedau lleol angen seilwaith sefydlog, integredig a dibynadwy. Gan adeiladu ar lwyddiant ein rhaglen Cyflymu Cymru, rydym yn cyflwyno **band eang ffeibr cyflym iawn** i 26,000 o dai a busnesau ychwanegol. Rydym bron wedi dyblu nifer y safleoedd sydd â mynediad i fand eang cyflym ers 2012, mewn maes lle mae cyfrifoldeb gan Lywodraeth y DU.

Rydym yn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio dulliau eraill o deithio yn lle eu ceir, gan fuddsoddi £30m i wella **teithio llesol** - y buddsoddiad mwyaf a welwyd erioed yng Nghymru. Mae ein Papur Gwyn ***Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig*** yn nodi weledigaeth flaengar ar gyfer system drafnidiaeth gyhoeddus integredig.

Teithio ar fws yw asgwrn cefn trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Eleni fe wnaethom gyhoeddi £1m ar gyfer **cynllun peilot bysiau sy'n ymateb i'r galw** ac estyn y cynllun teithio'n rhatach ar fysiau, **FyNgherdynTeithio**, i unigolion 16 i 21 oed. Mae mwy na 20,000 o bobl ifanc wedi gwneud 1.3 miliwn o deithiau rhatach ers dechrau'r cynllun.

Rydym ar daith gwerth £5bn i drawsnewid gwasanaethau rheilffordd dros y 15 mlynedd nesaf. Roedd y sefyllfa a etifeddwyd gan **Trafnidiaeth Cymru** yn un heriol ond mae cerbydau newydd yn cael eu cyflwyno ledled Cymru, gan ddarparu 6,500 yn fwy o seddau bob wythnos ar reilffyrdd craidd y Cymoedd. O fis Ionawr 2020, mae prisiau tocynnau'r **rhwydwaith rheilffordd cyfan yn gostwng**, gan roi arian yn ôl ym mhocedi pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys estyn teithio am ddim i blant dan 11 oed.

Rydym yn buddsoddi mewn teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i annog pobl i ddefnyddio eu car yn llai aml ond byddwn yn parhau i gynnal a chadw a diweddaru **ffyrdd** y genedl. Eleni, fe wnaethom ddechrau adeiladu ffordd osgoi Caernarfon i'r Bontnewydd, cyhoeddi cynlluniau caffael i wella cefnffordd coridor yr A55 yn Sir y Fflint a pharhau i ddiweddaru Ffordd Blaenau'r Cymoedd yr A465. Ym mis Mehefin 2019 fe wnaethom benderfynu peidio â gwneud y Gorchmynion ar gyfer ffordd liniaru'r M4. Bydd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn ystyried y sefyllfa ac yn gwneud argymhellion ar y cyfleoedd, yr heriau a'r amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4.

I helpu i leihau lefelau nitrogen deuocsid, rydym wedi cyflwyno **terfynau cyflymder 50mya** mewn pum lleoliad ar y rhwydwaith ffyrdd. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi cynlluniau i osod mwy o **derfynau cyflymder 20mya** mewn ardaloedd preswyl i leihau allyriadau a gwella diogelwch ar y ffyrdd. Rydym wedi dyrannu £4m i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau i atal gwrthdrawiadau ar y ffyrdd ac rydym yn datblygu **strategaeth gwefru cerbydau trydan**.

## Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd a chymell twf cynaliadwy

Mae ein *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* yn cefnogi **model datblygu economaidd sy'n seiliedig ar ranbarthau** er mwyn gwneud y mwyaf o gryfderau lleoedd a chymunedau penodol a mynd i'r afael â'u hanghenion. Ategir hyn gan raglenni i feithrin y sgiliau y mae eu hangen arnom ar gyfer y dyfodol.

Drwy brosiect y **Cymoedd Technoleg**, rydym yn buddsoddi £100m i greu tua 1,500 o swyddi cynaliadwy dros 10 mlynedd er mwyn gwneud Blaenau Gwent a'r Cymoedd ehangach yn ganolfan adnabyddus yn fyd eang ar gyfer datblygu a darparu technolegau newydd. Ym mis Medi 2019, fe wnaethom gyhoeddi cynlluniau ar gyfer y **Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol** yng Nglynebwy, gan gynnwys cynlluniau i weithio gyda busnesau ac ysgolion lleol i gynyddu'r galluogrwydd digidol.

Law yn llaw â hyn, mae **Tasglu'r Cymoedd** yn gweithio gyda chymunedau a chyrff lleol i fynd i'r afael â phroblem cartrefi gwag, i hybu potensial trefi allweddol ac atyniadau ymwelwyr awyr agored ac i wella trafnidiaeth leol er mwyn creu swyddi gwell yn nes at adref.

Mae'r Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol yn enghraifft o **safle magned** - canolfannau o safon ryngwladol sy'n denu buddsoddiad pellach, yn arwain at fanteision i ranbarthau cyfan ac yn meithrin ffyrdd arloesol o weithio. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys y **Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch** ym Mrychdyn, a allai gynyddu gwerth economi Cymru cymaint â £4bn dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd y **Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Prosesu Signalau Digidol** ym Mhrifysgol Bangor yn helpu i wneud Cymru yn arweinydd byd-eang mewn technoleg 5G.

# Cyfartal

Rydym yn benderfynol o ehangu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru, a chefnogi cydraddoldeb o ran cyfleoedd a chanlyniadau i bawb. Mae hyn yn dechrau pan gaiff baban ei eni, drwy dalebau Cychwyn Iach a'n cynlluniau i dreialu bwndeli babi – ein hanrheg i groesawu babanod a enir yng Nghymru. Mae'r gefnogaeth hon yn parhau drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol ac wrth iddynt dyfu'n oedolion, drwy gefnogi pobl i ennill y sgiliau, y gyflogaeth, y cartref diogel, y gofal iechyd a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae eu hangen arnynt i ffynnu drwy gydol eu bywydau.

## Cefnogi plant a phobl ifanc i gael y dechrau gorau mewn bywyd

Un plentyndod y mae pawb yn ei gael – felly mae'n haeddu bod y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Rydym wedi rhoi ein **cynnig gofal plant** ar waith flwyddyn yn gynnar, gan ddarparu hyd at 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant am ddim, gwerth £135 yr wythnos, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Rydym yn parhau i gynnal ein cynlluniau **talebau Cychwyn Iach a Llaeth Mewn Meithrinfeydd**, sy'n darparu bron i £900 o dalebau i rieni cymwys. Rydym hefyd yn datblygu **bwndel babi** i ddarparu "anrheg croeso" i fabanod a enir yng Nghymru – bydd yn cael ei roi ar brawf yn 2020.



Mae ein rhaglen ymwelwyr iechyd **Dechrau'n Deg** yn cyrraedd dros 36,000 o blant bob blwyddyn. Rydym wedi darparu **brecwast iach am ddim** i dros 60,000 o blant eleni ac wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn prydau ysgol am ddim i gyrraedd 3,000 yn fwy o blant erbyn 2022.

Mae ein **rhaglen gwella gwyliau'r haf, Bwyd a Hwyl**, yn helpu i fwydo ac addysgu plant yn ystod gwyliau'r haf. Eleni, ehangwyd y cynllun, gan gynnig 4,000 o leoedd ychwanegol i blant ledled Cymru. Rhoddwyd ein **cynllun peilot Gwaith Chwarae - Llwgu yn ystod y Gwyliau** ar waith mewn 92 o leoliadau chwarae a chymunedol eleni, gan ddarparu 13,000 o brydau i blant sydd mewn perygl o fod yn llwglyd.

Rydym wedi ychwanegu £5m at ein cronfa **Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad**, gan helpu rhieni gyda chostau bob dydd anfon eu plant i'r ysgol. Rydym yn parhau i ddarparu gwasanaeth llwyddiannus **Cynllun Gwên**, sydd wedi lleihau pydredd dannedd ymhlith plant pum mlwydd oed 13.4% ers 2008, a'r gwelliannau mwyaf wedi bod mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae gormod o blant wedi'u gwahanu oddi wrth eu teuluoedd yng Nghymru ac rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i leihau nifer y **plant sy'n derbyn gofal**. Mae pob awdurdod lleol bellach wedi sefydlu gwasanaethau ar ffiniau gofal ac wedi datblygu cynlluniau i reoli, mewn modd diogel, ostyngiad yn nifer y plant mewn gofal yn y blynyddoedd nesaf – mae 18 o'r 22 awdurdod lleol wedi cytuno i dargedau ffurfiol.

## Cefnogi pobl i gyrraedd eu potensial

Mae ar bob plentyn angen profiad ysgol, sy'n rhoi iddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad i fyw bywydau annibynnol, llawn boddhad. Eleni, lansiwyd ein buddsoddiad unigol mwyaf, sef £24m, ar gyfer **datblygiad proffesiynol athrawon**, a rhoddwyd 5% o gynnydd ar gyfer cyflog cychwynnol athrawon newydd gymhwyso. Rydym yn parhau i ddatblygu ein **cwricwlwm newydd** arloesol, sydd wedi'i wneud yng Nghymru, a fydd yn darparu addysg addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Ein rhaglen **Ysgolion yr 21ain Ganrif** yw'r rhaglen adeiladu ysgolion fwyaf ers y 1960au ac mae'n rhoi budd i gymunedau cyfan. Ym mis Medi 2019, agorwyd Ysgol Godre'r Berwyn, gan gyfuno tair ysgol mewn un lle gyda chyfleusterau o'r radd flaenaf. Mae hefyd yn cynnwys llyfrgell gyhoeddus, gofod theatr a stiwdio ddawns. Rydym hefyd wedi lansio rhaglen **Hybiau Cymunedol** gwerth £15m, sy'n cefnogi dulliau newydd radical ac arloesol o gefnogi plant a dod â chymunedau at ei gilydd.

Mae'n hanfodol bod gan bobl fynediad at addysg bellach ac uwch fel y bo ganddynt y sgiliau cywir mewn byd sy'n newid yn gyflym. Rydym yn parhau i ddarparu'r **Lwfans Cynhaliaeth Addysg a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn** i ddysgwyr mewn addysg bellach – manteisiodd dros 20,000 o bobl ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg y llynedd. Rydym wedi cyflwyno pecyn newydd o **gymorth ariannol ar gyfer addysg uwch a dysgu rhan amser** a gall pob myfyriwr israddedig sy'n hanu o Gymru nawr ymgeisio am grant cynhaliaeth gwerth £1,000 y flwyddyn.

## Cartrefi fforddiadwy a diogel i bawb

Mae cartref yn rhoi sylfaen i unigolion ac aelwydydd sicrhau dyfodol gwell iddyn nhw eu hunain. Rydym ar y trywydd iawn at ddarparu **20,000 yn fwy o gartrefi fforddiadwy** yn ystod tymor y Senedd hon – gwnaethom adeiladu 2,592 o gartrefi fforddiadwy yn 2018-19, sy'n 12% o gynnydd o'i gymharu â 2017-18 a dyma'r cyfanswm blynyddol mwyaf hyd yn hyn. Mae ein **Rhaglen Tai Arloesol**, gwerth £90m, yn rhoi prawf ar ffyrdd newydd o weithio o ran tai cymdeithasol a fforddiadwy drwy ddyluniadau carbon isel gan helpu i ddarparu 1,440 o gartrefi, gan gynnwys dros 1,000 o gartrefi fforddiadwy.

Rydym wedi cydweithio â Sefydliad Tai Siartredig Cymru i helpu awdurdodau lleol i adeiladu mwy o **gartrefi cyngor**. Mae cynghorau Caerdydd, Ynys Môn, Sir y Fflint, Wrecsam, Abertawe a Bro Morgannwg yn adeiladu tai unwaith eto. Mae awdurdodau lleol yn anelu at adeiladu 1,750 o dai cyngor newydd erbyn diwedd 2022.

Rydym yn parhau i weithio i **atal digartrefedd** a phan na ellir ei atal, sicrhau ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Rydym wedi darparu £8.8m yn uniongyrchol i awdurdodau lleol i hybu'r ddarpariaeth statudol sydd ar gael ym mhob ardal, ac i helpu i atal digartrefedd. Rydym wedi dyrannu £1.6m i saith o brosiectau **Tai yn Gyntaf** ledled Cymru i ddarparu cymorth dwys i bobl sydd â hanes o gysgu allan yn fynych. Rydym hefyd wedi darparu £10m i gefnogi **pobl ifanc ddigartref neu'r rhai sy'n wynebu digartrefedd**, gan gynnwys cronfa arloesi gwerth £4.8m i gefnogi 25 o brosiectau digartrefedd ymysg pobl ifanc.

Mae pobl sy'n rhentu yn haeddu chwarae teg ac rydym wedi **gwahardd ffioedd gosod annheg**, gan arbed bron i £200 i denantiaid fesul tenantiaeth.



## Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hygyrch ac o safon

Rydym yn gwario £3,051 y pen bob blwyddyn ar wasanaethau iechyd a gofal – yr uchaf yn y DU – a gwariwyd £500m yn ychwanegol yn 2019-20. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn helpu i wella gofal yn y GIG a bydd yn cefnogi camau i leihau amseroedd aros i gael at wasanaethau.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i ddatblygu **llwybr canser unigol** ar gyfer pawb yr amheuir bod ganddynt ganser. Mae **cyfraddau goroesi canser** am bum mlynedd wedi gwella 6.8 pwynt canran dros 10 mlynedd.

Darparu **gofal cymdeithasol** i boblogaeth sy'n heneiddio yw un o heriau mwyaf ein hoes o hyd – yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Rydym wedi codi'r terfyn cyfalaf, sef faint o gynilion a mathau eraill o gyfalaf y gall pobl eu cadw cyn gorfod talu am ofal preswyl, o £40,000 i £50,000. Dyma'r lefel uchaf yn y DU erbyn hyn, ac rydym wedi gwneud y newid hwn ddwy flynedd yn gynt na'r bwriad.

Mae ein **Cronfa Triniaethau Newydd** yn cefnogi mynediad cyflymach at feddyginiaethau newydd sy'n newid ac yn achub bywydau, diolch i £80m o gyllid dros dymor y Senedd hon. Erbyn mis Medi 2019, roedd yr amser cyfartalog y mae'n ei gymryd i'r triniaethau newydd hyn fod ar gael drwy'r GIG wedi gostwng o 90 diwrnod i ddim ond 11.

Mae iechyd meddwl yn parhau'n flaenoriaeth allweddol ac rydym wedi cynyddu'r gyllideb iechyd meddwl neilltuedig i £679m yn 2019-20. Rydym wedi sefydlu tîm iechyd meddwl amenedigol ym mhob bwrdd iechyd ac wedi integreiddio darpariaeth iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Mae ein **dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl** wedi bod o fudd i dros 10,000 o blant – ac nid oedd angen atgyfeirio 87% ohonynt ymlaen at wasanaethau arbenigol. Rydym wedi ymgynghori ar Law yn ***Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni 2019-22***, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020.

## Trawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Yn ogystal â pharhau i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon, rydym wedi dechrau newid yn radical y ffordd o ddarparu'r gwasanaethau hyn. Y llynedd, cyhoeddwyd ***Cymru Iachach***, ein cynllun 10 mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ac rydym yn gweld newid mewn uchelgais a dull gweithredu ledled Cymru.

Eleni, datblygwyd ein cynllun 10 mlynedd ***Pwysau Iach, Cymru Iach***, sydd wedi'i integreiddio â'n cynlluniau ar gyfer teithio llesol a'n hamgylchedd. Rydym yn parhau i ddarparu ein **Cronfa Gofal Integredig**, gan gynnig £105m o gyllid eleni i brosiectau sy'n dod â gwasanaethau ynghyd ac sy'n rhoi'r pwyslais ar atal.

Mae mynediad at ofal yn hanfodol a dylai pobl allu cael y gwasanaethau iechyd a gofal mwyaf priodol, mor agos â phosibl i ble maent yn byw. Mae'r system TG **Dewis Fferyllfa** bellach ar gael mewn 98% o fferyllfeydd ac mae dros 100,000 o ymgyngoriadau wedi'u cwblhau mewn fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru. Dywedodd wyth o bob deg o bobl a ddefnyddiodd y gwasanaeth Dewis Fferyllfa y byddent wedi mynd at eu meddyg teulu, gwasanaeth y tu allan i oriau neu adran damweiniau ac achosion brys pe na bai'r gwasanaeth wedi bod ar gael.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli. Eleni, rhagorwyd ar ein targed, a oedd wedi'i gynyddu, ar gyfer **lleoedd hyfforddi Meddygon Teulu**, gan lenwi 186 ohonynt. Mae gweithlu GIG Cymru wedi cynyddu 10.4% dros y pum mlynedd diwethaf – mae lleoedd hyfforddi nyrsys wedi cynyddu 40% yn y cyfnod hwnnw ac mae lleoedd bydwragedd wedi cynyddu 71%.



## Gwerthfawrogi pawb yng Nghymru

Rydym wedi rhoi sawl menter ar waith i sicrhau y gall pawb yng Nghymru ffynnu a byw ag urddas pwy bynnag ydynt.

Mae ein **Bwrdd Menywod mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg** yn dod â menywod o'r meysydd hyn at ei gilydd. Gwnaethom ariannu 18 digwyddiad ledled Cymru ar gyfer **Diwrnod Windrush** ym mis Mehefin 2019 i ddathlu bywydau pobl sydd wedi dod i Gymru o'r Caribî. Amlinellodd ein ***Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid*** a'n ***Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd*** ddull radical yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal.

Cyhoeddwyd ***Gweithredu ar Anabledd***, ein fframwaith a'n cynllun gweithredu i helpu pawb yng Nghymru i fyw'n annibynnol, ac rydym yn parhau i ddefnyddio ein cynllun cyflogaeth i bobl anabl i helpu pobl i gael gwaith gwerth chweil. Cynyddodd cyf**radd cyflogaeth pobl anabl** yng Nghymru i 49.2% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019, sef tri phwynt canran yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Dros yr un cyfnod, mae'r bwlch rhwng cyfradd cyflogaeth pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yng Nghymru wedi lleihau mwy na 2 bwynt canran.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar **Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** yn amlygu sut rydym yn arwain gweddill y DU o ran taclo a chael gwared â phob math o drais yn erbyn menywod. Mae ein **Grant Urddas Mislif** wedi'i ddosbarthu i bob ysgol yng Nghymru i ddarparu eitemau am ddim ar gyfer y mislif, ac rydym yn datblygu strategaeth ehangach ar gyfer urddas mislif.

## Trethiant teg

Ym mis Ebrill 2019, cyflwynwyd **Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC)**, gan alluogi'r Senedd i wneud penderfyniadau – am y tro cyntaf – ynghylch cyfran o dreth incwm sydd i'w thalu yng Nghymru. Mae CTIC a threthi Cymreig eraill bellach yn cyfrannu tua £3.6bn y flwyddyn at Gyllideb Cymru. Gosodwyd cyfraddau Cymreig cyntaf y dreth incwm ar 10c, yr un lefel ag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan wireddu ein hymrwymiad i beidio â chynyddu cyfraddau treth incwm yn ystod tymor y Senedd hon.

Rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth newydd i wneud **y dreth gyngor yn fwy teg yng Nghymru**, gan gael gwared â chosb carchar am beidio â thalu'r dreth gyngor ac eithrio pobl sy'n gadael gofal hyd at 25 mlwydd oed rhag talu'r dreth gyngor. Rydym hefyd wedi cynnal ein **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** i gefnogi'r rhai mwyaf anghenus, ac o ganlyniad nid yw 220,000 o aelwydydd yng Nghymru yn talu'r dreth gyngor o gwbl.

Rydym hefyd yn darparu **gwasanaethau cynghori**, gan helpu 77,000 o bobl i sicrhau dros £53m o incwm budd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddo yn 2018-19. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi busnesau a'r stryd fawr drwy **£230m y flwyddyn o ryddhad ardrethi**. Nid yw hanner yr holl fusnesau yng Nghymru yn talu ardrethi o gwbl diolch i'n cefnogaeth ni.



# Mwy Gwyrdd



Mae taer angen mynd i'r afael â bygythiad y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae gan Gymru rai o'r asedau amgylcheddol mwyaf o unrhyw wlad fach, ond mae ein hecosystem sylfaenol yn dirywio. Eleni, cyhoeddom **argyfwng newid hinsawdd**, gan ein rhoi ein hunain ar flaen y gad mewn mudiad cymdeithasol ehangach i fynd i'r afael â'r argyfwng ac adfer ein hamgylchedd naturiol.

## Datgarboneiddio yn gynt i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd

Ers datgan argyfwng newid hinsawdd, rydym wedi cynyddu ein **targed lleihau carbon** i 95% erbyn 2050, ac mae gennym uchelgais i fod yn sero net. Eleni, cyhoeddwyd ein cynllun cyflawni carbon isel ***Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel***, sy'n nodi 100 o bolisïau a chynigion i leihau allyriadau carbon. Mae ein cyllideb garbon ar gyfer 2020 yn 27% o ostyngiad ers 2016, sy'n dangos ein huchelgais i ddatgarboneiddio yn gyflym.

Rydym wedi ymrwymo i sefydlu **diwydiannau ynni adnewyddadwy** sy'n arwain y byd. Canfu *Adroddiad Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2018* fod dros 50% o'n trydan wedi dod o ffynonellau adnewyddadwy, cynnydd o 19% yn 2014, a bod bron i 69,000 o brosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Rydym wedi sicrhau buddsoddiad gan yr UE i sefydlu **sector ynni'r môr** yng Nghymru a byddwn yn rhoi prawf ar rai o'r technolegau tonnau a llanw mwyaf datblygedig yn y byd.

Amcangyfrifir ein bod wedi helpu i godi 177,000 o gartrefi allan o **dlodi tanwydd** rhwng 2008 a 2018, sydd wedi mwy na haneru'r cyfanswm. Mae ein **cynllun Cartrefi Clyd**, wedi rhoi cyngor ar effeithlonrwydd ynni i 112,000 o bobl ac wedi gosod mesurau arbed ynni mewn dros 50,000 o gartrefi. Amcangyfrifir bod y gwelliannau hyn wedi arbed £409 y flwyddyn ar gyfartaledd ar eu bil ynni. Mae'r cynllun wedi'i estyn hyd at 2021 ac rydym hefyd yn datblygu **rhaglen ôl-osod ynni** ar gyfer tymor y Senedd nesaf i gyfrannu at ein huchelgais i gyrraedd carbon sero net.

## Lleihau gwastraff ac adfer ein hamgylchedd

Cymru sydd â'r cyfraddau ailgylchu pedwerydd uchaf yn y byd – rydym yn ailgylchu, yn ailddefnyddio neu'n compostio 63% o'n gwastraff. Ein nod yw creu **economi gylchol** lle caiff gwastraff ei leihau ac asedau eu hailddefnyddio. Ym mis Ebrill 2019, gwnaethom lansio **Cronfa'r Economi Gylchol**, gwerth £6.5m, sy'n cynnig grantiau i fusnesau i gynyddu eu defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu mewn cynhyrchion, cydrannau neu ddeunydd pacio.

Rydym yn gweithredu mewn sawl ffordd i wneud economi gylchol yn realiti. Rydym wedi dechrau gwaith i **wahardd rhai mathau o blastig untro** i helpu i warchod ein hamgylchedd, gan fynd ymhellach na chynlluniau cyfatebol yn Lloegr. Rydym wedi ymgynghori ar **gynlluniau dychwelyd ernes** ar gyfer cynwysyddion diodydd a **chynllun y llygrwr sy'n talu** er mwyn dal busnesau i gyfrif yn fwy am eu heffaith ar ein hamgylchedd.

Dyfarnodd ein **Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi** £1.4m o grantiau i 44 o brosiectau cymunedol ac amgylcheddol yn 2018-19.

Rydym yn datblygu **Cynllun Twf Amgylcheddol** ac ym mis Mehefin 2019 cynhaliwyd ein **Diwrnod Aer Glân Cymru** cyntaf i godi ymwybyddiaeth o achosion ac effeithiau llygredd aer. Rydym yn parhau i ddatblygu Bil Aer Glân. Mae ein **Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd** wedi ennill gwobr nodedig, Gwobr John Connell, gan y Gymdeithas Lleihau Sŵn ac mae dros 70 o gymunedau a sefydliadau wedi ennill gwobrau Caru Gwenyn o dan ein ***Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio***.

Mae angen inni blannu llawer mwy o goed yng Nghymru, ac yn llawer cynt, ac rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o greu **Coedwig Genedlaethol**, gan adeiladu ar lwyddiant Llwybr Arfordir Cymru. Bydd y prosiect 20 mlynedd hwn yn cysylltu safleoedd ledled y wlad i ffurfio un goedwig ddi-dor, gan greu symbol o falchder cenedlaethol. Caiff y Goedwig Genedlaethol ei chefnogi gan ein **cynllun plannu coed Plant!**, sy'n plannu dwy goeden ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru – un yng Nghymru ac un yn Uganda. Mae'r coed hyn yn cyfrannu at ein rhaglen Mbale, sy'n plannu coed yn rhanbarth Mynydd Elgon yn Uganda sydd wedi'i ddatgoedwigo yn helaeth. Mae rhaglen Mbale, sy'n rhan o'n menter **Cymru o Blaid Affrica** i'n helpu i fod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang, wedi plannu 10 miliwn o goed ers 2014 a'r nod yw plannu 25 miliwn erbyn 2025.

## Lliniaru effaith y newid yn yr hinsawdd

Mae angen inni ddeall y peryglon sy'n codi yn sgil y newid yn yr hinsawdd a beth maent yn ei olygu i'n cymunedau a'n lleoedd. Eleni, datblygwyd ***Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd***. Dyma ein hail gynllun addasu i newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, ac mae'n dangos sut rydym yn ymateb i beryglon a chanlyniadau mwyaf enbyd y newid yn yr hinsawdd. Mae'r cynllun yn amlinellu sut y byddwn yn datblygu cydnerthedd ein cymunedau a'n hamgylchedd naturiol, gan ganolbwyntio ar lifogydd, sychder, ein hecosystem a'r sector amaeth.

Eleni, gwnaethom gyhoeddi canllawiau i annog ffyrdd naturiol o reoli llifogydd, buddsoddi £44m i fynd i'r afael â pherygl llifogydd ac erydu arfordirol a lansio ein Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol gwerth £150m a fydd ar waith tan 2022. Gwnaethom gyflwyno'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd ym mis Ebrill 2019 ac ymgynghori ar Strategaeth Genedlaethol 10 mlynedd ar gyfer *Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru*.



## Cefnogi ffermwyr a gwarchod diwydiant bwyd Cymru

Mae amaethyddiaeth yn hollbwysig i ffyniant ein heconomi, iechyd ein cymunedau ac amrywiaeth ein hamgylchedd naturiol. Mae angen inni sicrhau bod gan ein ffermydd y cadernid y mae ei angen arnynt i ffynnu a gwarchod byd natur.

Er bod Brexit yn hynod o heriol ac wedi amharu'n sylweddol ar bethau, mae'n cynnig y posibilrwydd o gynllunio system bwrpasol ar gyfer Cymru i gefnogi ffermwyr. Yn ***Brexit a'n Tir***, nodwyd sut y byddwn yn cadw ffermwyr mewn ffermydd cynaliadwy sydd o les i'r diwydiant ffermio, cymunedau gwledig a holl bobl Cymru. Eleni, cynhaliwyd ymgynghoriad ar ***Ffermio Cynaliadwy a'n Tir***, sy'n cynnwys cynigion manwl ar sut y byddem yn cefnogi ffermwyr ar ôl inni adael y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio o'r newydd ar amaethyddiaeth fanwl, trosglwyddo gwybodaeth a gweithio gyda chadwyni cyflenwi ehangach.

Mae ein sector bwyd sy'n arwain y byd wedi dangos sut y gall buddsoddi yn ein hamgylchedd gefnogi economi Cymru. Eleni, ymgynghorwyd ar gynllun strategol newydd ar gyfer y **sector Bwyd a Diod** yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein gweledigaeth, a ddatblygwyd gyda Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, ar gyfer sector bwyd a diod cryf a bywiog yng Nghymru sydd ag enw byd-eang am ragoriaeth. Croesawom y diwydiant bwyd a diod byd-eang i Gymru ar gyfer **BlasCymru/ TasteWales** ym mis Mawrth 2019, gan greu gwerth bron i £22m o gyfleoedd busnes newydd ac adeiladu ar yr £16m o fusnes a sicrhawyd yn sgil digwyddiad BlasCymru 2017.





# Adolygu'r amcanion llesiant

Rydym wedi adolygu ein hamcanion llesiant oherwydd cyd-destun ehangach digwyddiadau 2019, a oedd yn heriol ac yn digwydd yn gyflym, gan gynnwys:

- Degawd Llywodraeth y DU o bolisïau cyni, sydd wedi cael effaith ddofn ar bobl Cymru ac ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosio anghydraddoldeb;
- Yr angen i ymgymryd ag ystod sylweddol a chymhleth o weithgarwch i baratoi ar gyfer Brexit a lliniaru effaith bosibl gwahanol sefyllfaoedd, mewn cyd-destun gwleidyddol sy'n symud yn gyflym. Mae hynny wedi dargyfeirio adnoddau sylweddol oddi wrth y gweithgarwch yr oeddem wedi'i gynllunio;
- Yr argyfwng hinsawdd, lle bu gofyn gweithredu ar unwaith i gyflymu'r camau i ddiogelu ein planed a gwrthdroi'r dirywiad yn ein hamgylchedd naturiol.

Wrth adolygu ein hamcanion llesiant, ystyriwyd hefyd *Llesiant Cymru: 2018-2019* a. Daethom i'r casgliad mai'r 12 amcan llesiant, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at un neu ragor o'r nodau llesiant cenedlaethol, yw'r amcanion cywir o hyd i lywio gweddill tymor y Senedd hon a sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf tuag at y nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r cefndir sydd ohoni yn ei gwneud yn ofynnol i ni fod yn gadarn yn ein penderfyniad i wneud cynnydd gwirioneddol ac adeiladu ar ein cynnydd sylweddol i ymgorffori syniadau hirdymor, atal, cynnwys, integreiddio a chydweithredu ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Eleni, rydym wedi ystyried yr adolygiad o'n hamcanion llesiant yng nghyd-destun tair thema gyffredinol; mwy llewyrchus, cyfartal a mwy gwyrdd, gyda'r pum ffordd o weithio hefyd yn darparu sylfaen i lywio ein holl weithgareddau. Mae hyn hefyd wedi ein helpu hefyd wrth inni fynd ati i gynllunio cyllideb ddrafft 2020-21 er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Mae ein paratoadau ar gyfer y gyllideb a'n blaenoriaethau wedi'u seilio ar fuddsoddiadau strategol yn ein hwyth maes blaenoriaeth, sef y blynyddoedd cynnar, gofal cymdeithasol, tai, cyflogadwyedd a sgiliau, iechyd meddwl gwell, datgarboneiddio, tlodi a bioamrywiaeth, gan gyfrannu ar draws ein hamcanion llesiant. Mae natur gydgysylltiedig ein hamcanion llesiant wedi arwain at welliannau sylweddol i'r ffordd yr ydym yn gweithredu, gan Integreiddio dulliau ysgogi'r llywodraeth er mwyn gwella'r cyflawni ar draws y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus.

| Amcan llesiant | | Mwy Llewyrchus | Cyfartal | Mwy Gwyrdd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant | ● | ● | |
| 2 | Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg | ● | ● | ● |
| 3 | Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd | ● | | ● |
| 4 | Darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol | | ● | |
| 5 | Hyrwyddo iechyd a llesiant i bawb | ● | ● | ● |
| 6 | Creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell | | ● | ● |
| 7 | Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial | ● | ● | |
| 8 | Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw | ● | ● | |
| 9 | Sicrhau bod gan bawb y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid | ● | ● | |
| 10 | Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth | ● | ● | ● |
| 11 | Darparu seilwaith modern a chysylltiedig | ● | ● | ● |
| 12 | Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd | ● | | ● |

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG39893 ISBN digidol 978-1-80038-079-0